



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 47: wythnos 06/12/2021

Cynnydd wythnosol (30 Tachwedd - 6 Rhagfyr)

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar JCVI ynghylch ymestyn y rhaglen frechu Covid-19, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio'n galed i gynnig y dosau Atgyfnerthu. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn gyntaf i'r cyhoedd am eich amynedd ac am fynychu eich apwyntiadau yn ôl y galw. Yn ail, hoffem ddiolch i staff ein Canolfan Frechu Torfol am weithio'n eithriadol o galed i gyflwyno'r rhaglen frechu hynod uchelgeisiol hon.

Rydym yn brechu nifer fawr o bobl

#HelpuNiHelpuChi

drwy fynychu'r apwyntiad cyntaf sy'n cael ei gynnig i chi



FFIGYRAU'R BRECHLYN ATGYFNERTHU

(hyd at 10pm, 05/12/2021)

80 oed a hŷn	24,820	85.3%
75-79 oed	20,587	86.7%
70-74 oed	28,204	86.1%
65-69 oed	27,035	82.8%
60-64 oed	26,167	69.1%
Eithriadol o fregus yn glinigol	6,405	43.5%
Grwpiau mewn perygl	32,088	46.8%

Apwyntiadau

Rydym ar hyn o bryd yn brechu yn ôl canllawiau JCVI ac yn galw ar bobl yn ôl oedran a bregusrwydd. Rydym yn gweithio mor gyflym ag sy'n bosibl.

BYDDWCH YN AMYNEDDGAR - BYDDWN YN CYSYLLTU Â CHI.

Bydd apwyntiadau'n cael eu cynnig drwy lythyr neu neges destun, a gallant fod yn fyr rybudd. Mae'n bwysig eich bod yn mynychu'r apwyntiad cyntaf sy'n cael ei gynnig i chi.

Oherwydd y nifer fawr o bobl rydym yn eu brechu ar hyn o bryd, os oes rhaid i chi ganslo eich apwyntiad, neu newid y dyddiad, efallai bydd yn rhaid i chi ddisgwyl ychydig wythnosau cyn bydd modd ail-drefnu.

Cyrhaeddwch yn brydlon

ar gyfer eich apwyntiad brechiad Covid-19



Mae ein canolfannau brechu yn brysur iawn. I leihau oedi, cyrhaeddwch eich apwyntiad yn brydlon (dim mwy na 10 munud yn gynnar).



Ail Ddos i unigolion 16-17 oed

Yn dilyn canllawiau JCVI, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwahodd unigolion 16-17 oed am eu hail ddos o'r brechiad Covid-19.

Bydd y rhai sy'n gymwys yn derbyn gwahoddiad drwy neges destun a/neu lythyr erbyn 18 Rhagfyr.



PÀS COVID Y GIG

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl Cymru wneud cais am BÀS COVID, a fydd yn galluogi mynediad i ddigwyddiadau a lleoliadau.

Gallwch gael eich PÀS COVID Y GIG ar-lein:
www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/covid-pass/

Neu ar y ffôn: **0300 303 5667**

Ffoniwch 0300 303 5667 os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.



Efallai y bydd rhaid ciwio yn ein Canolfannau Brechu Torfol oherwydd y nifer fawr o bobl sy'n dod drwy ein drysau - ymddiheurwn am unrhyw oedi, ond byddwch yn amyneddgar a gwisgwch ar gyfer tywydd oer rhag ofn bod gofyn i chi ddisgwyl y tu allan.

BRECHU'R DOS CYNTAF – GADAEL NEB AR ÔL

Gall unrhyw un sy'n 12 oed neu'n hŷn sydd heb dderbyn ei ddos cyntaf o'r brechiad, alw heibio un o'n clinigau brechu torfol i gael ei ddos CYNTAF o'r brechiad.

Ar gyfer lleoliadau ac oriau agor ein clinigau, ewch i
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/our-vaccination-centres/>
neu ffoniwch 0300 303 1373 i drefnu'ch apwyntiad.

Rydym wrthi'n cynyddu capasiti ein canolfan archebu - byddwch yn amyneddgar os nad ydym yn ateb galwadau mor gyflym ag yr hoffem wneud.



Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn
<https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section70608> Neu drwy ffonio 0300 303 5667

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>